WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 – **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 705A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar info.officer@audit.wales.

Y tîm a wnaeth fy helpu i baratoi’r adroddiad hwn oedd Gabrielle Smith, Anthony Ford, Jason Garcia, Anthony Veale a David Thomas.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 8

Adran 1: Archwilio cyfrifon 9

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol at sawl mater wrth wneud hynny a chyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm marn archwilio i 9

Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau 11

Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn parhau i weithio'n dda, ond gallai cynnwys a fformat yr adrodd ariannol fod yn well 13

Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu corfforaethol da yn gadarn ar y cyfan ac yn parhau i aeddfedu 15

Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad gyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol yng Nghymru 19

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf 21

Atodiad 2 – ffi archwilio 22

Atodiad 3 – Risgiau archwilio arwyddocaol 23

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio yr wyf wedi'i gyflawni yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2016.

2 Mae'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn yr Ymddiriedolaeth yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

3 Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn â swyddogion a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol cyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.

4 Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 14 Mawrth 2017. Caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Ymddiriedolaeth. Anogwn Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gryf i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl i'r adroddiad gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar Wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

5 Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

6 Cydnabyddwn a diolchwn am gymorth a chydweithrediad staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth yn ystod yr archwiliad.

### Adran 1: archwilio cyfrifon

7 Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2015-16, ond wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol at sawl mater. Roedd y rhain yn ymwneud ag amcangyfrifon cyfrifyddu, datgelu cydnabyddiaethau ariannol a bodolaeth asedau.

8 Hefyd, cyflwynais adroddiad o sylwedd ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ynghyd â'm barn archwilio. Mae fy adroddiad yn egluro'r dyletswyddau ariannol newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2014 gan Ddeddf Cyllid GIG (Cymru) 2014, sut y cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn eu herbyn, a'r goblygiadau ar gyfer 2015-16.

9 Deuthum hefyd i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir yn eu hanfod. Ni wnaeth fy ngwaith ddarganfod unrhyw wendidau mawr yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth a oedd yn berthnasol i mi wrth archwilio'r cyfrifon.

10 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2015-16. Nodaf yn fanylach y sefyllfa ariannol a’r trefniadau rheoli ariannol yn adran 2 o’r adroddiad hwn

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

11 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei defnydd o adnoddau. Mae hyn yn cynnwys fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig a oedd yn archwilio trefniadau rheoli ariannol yr Ymddiriedolaeth, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a’r cynnydd a wnaed o ran y materion gwella a nodwyd y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol o’r gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn wedi esgor ar y casgliadau canlynol.

## Mae trefniadau’r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn parhau i weithio’n dda, ond gallai cynnwys a fformat yr adrodd ariannol fod yn well

12 Mae cynllunio ariannol a gosod cyllidebau yn rhan annatod o ddull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio’r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae’r rhain yn gadarn ar y cyfan. Mae gosod cyllidebau yn gyfrifoldeb a rennir rhwng cyfarwyddwyr yr isadrannau a’r tîm cyllid i ddyrannu adnoddau er mwyn cyflawni blaenoriaethau’r sefydliad. Er mwyn mantoli’r gyllideb yn ystod 2016-17, mae’r strategaeth ar gyfer y gyllideb yn seiliedig ar gyfanswm o £1.8 miliwn o arbedion i ymdrin â phwysau costau, yn ogystal â chreu cronfa o fuddsoddiad ar gyfer datblygiadau gwasanaeth. Creffir ar strategaeth y gyllideb fel rhan o broses graffu’r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chreffir ar gynigion buddsoddi mewn proses ar wahân.

13 Deiliaid y gyllideb sy’n gyfrifol am nodi arbedion a rheoli risgiau i gyflawni, a chaiff cynlluniau arbed arian eu hasesu am risg gan y tîm Cyllid, yn dibynnu ar lefel yr ansicrwydd ynghylch a fydd modd eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw pob cynllun arbedion yn cynnwys manylion ar natur y risgiau, a gallai hyn ei gwneud yn anoddach asesu’r risg.

14 Mae rhai arbedion yn dibynnu ar leihau neu dynnu arian oddi ar sefydliadau allanol, ac mae’n bosibl y bydd angen negodi unrhyw ddadfuddsoddiad o’r fath. Mae angen i arbedion o’r fath gael asesiad risg priodol felly, gan gydnabod anawsterau posibl. Mae’n rhaid i bob cynllun arbed arian risg uchel ystyried cynlluniau arbed arian eraill cyn dechrau’r flwyddyn.

15 Mae’r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol yn foddhaol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau, ac mae gweithgareddau a phrosesau rheoli priodol ar waith. Aseswyd y gweithdrefnau rheoli cyllidebol fel rhai risg isel ac ni chodwyd unrhyw faterion mawr gan yr Archwiliad Mewnol. Mae

rheolaethau mewnol effeithiol ar waith i gefnogi adrodd ariannol, ond gellid gwella ar rai prosesau a gweithdrefnau.

16 Mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth ariannol amserol, sy'n cyd-fynd â'r wybodaeth a adroddir i Lywodraeth Cymru bob mis. Fodd bynnag, mae fformat a chynnwys yr adroddiadau ariannol yn ei gwneud hi'n anodd olrhain newidiadau neu berfformiad yn erbyn strategaeth y gyllideb fel y nodwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn enwedig arbedion ac (ail)fuddsoddiadau.

17 Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyddo i gyflawni cydbwysedd ariannol bob blwyddyn a rhagwelir y bydd yn mantoli'r gyllideb yn 2016-17. Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth warged bach yn ystod 2015-16, fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar ôl brocera swm arfaethedig i Lywodraeth Cymru. Erbyn diwedd mis Hydref 2016, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwireddu hanner yr £1.8 miliwn o arbedion a nodwyd yn strategaeth y gyllideb, yn unol â'i chynllun.

## Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu corfforaethol da yn gadarn ar y cyfan ac yn parhau i aeddfedu

18 Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio strategol a gweithredol yn gweithio'n dda, ac er bod y trefniadau i fonitro perfformiad yn foddhaol, mae angen datblygu ymhellach y modd y mae'r bwrdd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r Bwrdd wedi mynegi ei ofynion sicrwydd ac mae fframwaith sicrwydd y bwrdd ar waith erbyn hyn. Mae gwaith yn parhau i fod ar droed i gyflwyno'r fframwaith rheoli risg, ond mae'r newidiadau i'r strwythurau llywodraethu yn gwella'r gwaith o graffu ar risgiau strategol.

19 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da ar gryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer ansawdd ac mae'r Fframwaith Ansawdd ac Effaith wedi'i gymeradwyo'n ddiweddar gan y Bwrdd. Mae gwaith ar droed i sicrhau bod straeon defnyddwyr gwasanaethau neu gymunedau yn cael sylw rheolaidd yng nghyfarfodydd y bwrdd a disgwylir yr adroddiad blynyddol cyntaf ar brofiadau defnyddwyr gwasanaethau ddechrau 2017. Yn y cyfamser, mae'r prosesau ar gyfer dysgu o gwynion a digwyddiadau yn parhau i wella a gwelir tystiolaeth fod dysgu yn rhan annatod o hyn.

20 Mae trefniadau i olrhain cynnydd ar fynd i'r afael ag argymhellion yn foddhaol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn defnyddio'r cofnod olrhain i herio cadernid ymatebion rheolwyr a chyflymder y cynnydd. Fodd bynnag, mae un o argymhellion 2014 heb ei gyflawni, ac nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi mynd i'r afael â hwn eto.

# Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad gyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol yng Nghymru

21 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn fy adroddiad ar gyfer 2013[1] ond mae'r gwaith o gynllunio swyddi yn aneffeithiol ac ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan yr Ymddiriedolaeth o hyd o ymrwymiadau meddygon ymgynghorol. Mae rheolaeth gorfforaethol y gwaith o gynllunio swyddi yn wan ar y cyfan, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhai camau cadarnhaol i gryfhau prosesau cynllunio swyddi ac i sicrhau bod diben cynllunio swyddi yn cael ei ddeall yn llwyr. Yn y cyfamser, dim ond rhai o'r manteision a fwriadwyd gan y contract sydd wedi'u gwireddu gan yr Ymddiriedolaeth.

[1] Swyddfa Archwilio Cymru, **Contract Meddygon Yngynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd**, 2013

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â’r adroddiad hwn

22 Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2015 a mis Tachwedd 2016.

23 Ymgymeraf â’m gwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i’r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004[2]. Mae’r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a

c) bodloni fy hun fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei defnydd o adnoddau.

24 Mewn perthynas ag c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Ymddiriedolaeth, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd;
- archwiliadau perfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth; a
- chanlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau.

25 Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

26 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- Adran 1: archwilio cyfrifon
- Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

27 Rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2016.

28 Yn olaf, mae Atodiad 3 yn nodi’r risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd gennyf yng Nghynllun Archwilio 2016 a sut yr ymdriniwyd â nhw drwy’r archwiliad.

[2] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwilio cyfrifon

29 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth am 2015-16. Drwy'r datganiadau hyn mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lif arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

30 Wrth archwilio datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

31 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2015-16 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol at sawl mater wrth wneud hynny a chyflwyno adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm marn archwilio i

### Deuthum hefyd i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir yn eu hanfod

32 Daeth y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 i law ar 29 Ebrill 2016, sydd o fewn y dyddiad cau. Canfu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall.

33 Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yr

Ymddiriedolaeth ar 2 Mehefin 2016. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau’r archwilydd |
|---|---|
| Amcangyfrif o’r gwaith a gwblhawyd ar swyddfa newydd Cwr y Ddinas | Cytunodd yr Ymddiriedolaeth ar les 12 mlynedd ar gyfer swyddfa newydd a symudodd y staff i mewn iddi yn ystod mis Awst 2016. Cafodd yr Ymddiriedolaeth £1 miliwn o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gwblhau’r gwaith hwn.<br>Wrth baratoi cyfrifon 2015-16, amcangyfrifodd yr Ymddiriedolaeth werth y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2015-16. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar werthusiad o’r gwaith a wnaed ar 11 Mawrth 2016. Gan nad oes gwaith o’r fath a gwblhawyd yn ystod y cyfnod rhwng 12 Mawrth a 31 Mawrth 2016 wedi’i gynnwys yn natganiadau ariannol 2015-16, nid oes modd gwerthuso’r gwaith yn ôl-weithredol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016.<br>Er ein bod yn credu bod yr amcangyfrif hwn yn rhy isel, rydym yn fodlon na fyddai gwerth y gwaith a gwblhawyd rhwng 12 Mawrth a 31 Mawrth 2016 yn berthnasol i ddatganiadau ariannol 2015-16. Derbyniwn hefyd y byddai unrhyw gynnydd yn y gwaith a gwblhawyd wedi arwain at gynnydd o arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, felly ni fyddai wedi effeithio ar sefyllfa refeniw yr Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Fodd bynnag, dylai’r Ymddiriedolaeth sicrhau yn y dyfodol bod yr holl waith a gwblheir hyd at ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gynnwys yn yr amcangyfrif ar gyfer datganiadau ariannol y flwyddyn honno. |
| Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol | Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol i Lywodraeth Cymru ac i’r archwiliad erbyn y dyddiad cau cytunedig. Fodd bynnag, nododd ein harchwiliad nifer o bethau ychwanegol yr oedd angen eu diwygio a’u datgelu yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol.<br>Ar ôl cwblhau’r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol, argymhellir bod y datgeliadau yn cael eu gwirio gan yr adrannau Cyllid ac AD ac yna’n cael eu dosbarthu i’r cyfarwyddwyr a’r aelodau annibynnol i’w hadolygu . |

| Mater | Sylwadau'r archwilydd |
|---|---|
| Bodolaeth Asedau | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal adolygiad o'i chofrestr asedau yn ystod y flwyddyn ac wedi diwygio enwau perchnogion yr asedau ar gyfer asedau penodol pan fo angen. Fodd bynnag, cynhaliwyd y broses hon yn ystod y flwyddyn yn hytrach na fel rhan o'r amserlen ar gyfer cau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.<br>Gallai'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadarnhau bodolaeth asedau ac adolygu asedau am ddiffygion fod yn fwy cadarn. |

34 Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliwyd yr adolygiadau canlynol hefyd:

- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – Ni chyrhaeddodd y ffurflen hon y trothwy ar gyfer archwilio, felly nid oedd angen i ni ystyried a oedd gwybodaeth gyfunol y parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2016 ac a oedd y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
- Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn.

### Ni wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau mawr yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth a oedd yn berthnasol i mi wrth archwilio'r cyfrifon

35 Adolygais y rheoliadau mewnol hynny a oedd gan yr Ymddiriedolaeth a oedd yn berthnasol i'r archwiliad, yn fy nhyb i, i'm cynorthwyo i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiadau mawr yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni wneuthum eu hystyried at ddibenion mynegi barn ar effeithiolrwydd gweithredu'r rheoliadau mewnol. Ni wnaeth fy adolygiad nodi unrhyw ddiffygion sylweddol yn rheoliadau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

## Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

36 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys

- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig y trefniadau ar gyfer nodi a gwireddu arbedion er mwyn cyflawni cydbwysedd ariannol ac (ail)fuddsoddi mewn datblygiadau yn y gwasanaeth

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith ar yr Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a gyflwynwyd y llynedd o ran yr asesiad strwythuredig; ac
- asesu'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy ngwaith archwilio blaenorol ynghylch contract meddygon ymgynghorol; ac
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth o ran dilyn hynt y cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.

37 Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheoli ariannol yn parhau i weithio'n dda, ond gallai cynnwys a fformat yr adrodd ariannol fod yn well

38 Mae fy ngwaith asesu strwythuredig yn ystod 2016 wedi ystyried y camau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol mwy hirdymor. Rwyf wedi asesu sefyllfa ariannol y sefydliad, y dull cynllunio ariannol, y rheoliadau a'r stiwardiaeth ariannol a'r trefniadau ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol. Caiff fy mhrif ganfyddiadau eu crynhoi isod.

### Mae cynllunio ariannol a gosod cyllidebau yn rhan annatod o ddull yr Ymddiriedolaeth o gynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac mae'r rhain yn gadarn ar y cyfan

39 Mae'r broses cynllunio ariannol yn parhau i fod yn rhan annatod o'r gylchred cynllunio ar gyfer y cynllun tymor canolig integredig (IMTP). Mae dealltwriaeth glir o swyddogaethau a chyfrifoldebau o fewn y broses gynllunio ariannol. Mae gosod y gyllideb yn gyfrifoldeb a rennir rhwng cyfarwyddwyr isadrannau a'r tîm cyllid, sy'n cydgysylltu'r broses o osod cyllideb gyffredinol ac sy'n darparu her adeiladol i'r rhagdybiaethau ariannol. Mae'r tîm rheoli gweithredol yn craffu ar gynlluniau ariannol drafft fel rhan o broses gynllunio integredig yr IMTP ac mae proses graffu ar wahân ar waith i gytuno ar gynigion (ail)fuddsoddi. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth gyllidebol ar gyfer 2016-17 fel rhan o broses gymeradwyo'r IMTP.

40 Mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn seiliedig ar y gwariant ym mis 6 y flwyddyn gyfredol, a chafodd ei haddasu ar gyfer pwysau cost a thargedau arbed arian. Er mwyn cyflawni cydbwysedd ariannol yn 2016-17, mae'r gyllideb yn seiliedig ar gynlluniau arbed arian sy'n dod i gyfanswm o £1.8 miliwn (1.57 y cant o gyllideb graidd yr Ymddiriedolaeth). Mae cynlluniau arbed arian yn gyfuniad o gynlluniau â thâl a heb dâl i ymdrin â phwysau cost a chreu cronfa fuddsoddi i ariannu datblygiadau yn y gwasanaeth. Ar ôl ei gymeradwyo, caiff cyllid (ail)fuddsoddi ei gynnwys yn llinell y gyllideb, a chaiff cynigion llwyddiannus eu seilio ar gynlluniau gweithredu.

41 Deiliaid y gyllideb sy’n gyfrifol am nodi arbedion a chynlluniau cyflenwi cysylltiedig. Asesir y risgiau i gynlluniau arbed arian gan y tîm Cyllid o ran yr ansicrwydd ynghylch y gallu i’w cyflawni a’r effaith ar y gwasanaeth. Cafodd y 45 o gynlluniau arbed a gafodd eu cynnwys yng nghyllideb 2016-17 eu hasesu am risg, ond ni chofnodwyd gwybodaeth am natur y risgiau sy’n gysylltiedig â 13 o gynlluniau unigol. Gall hyn olygu ei bod yn anodd i’r tîm cyllid asesu lefel y risg sy’n gysylltiedig â phob cynllun.

42 Mae rhai cynlluniau arbed yn dibynnu ar leihau neu dynnu arian oddi ar sefydliadau allanol, ac mae’n bosibl y bydd angen negodi unrhyw ddadfuddsoddiad o’r fath. Felly, mae angen i arbedion o’r fath gael asesiad risg priodol, gan gydnabod anawsterau posibl. Fodd bynnag, cafodd cyllideb 2016-17 ar gyfer un gyfarwyddiaeth ei chadarnhau cyn i’r Ymddiriedolaeth hysbysu sefydliad allanol o’i bwriad i dynnu’r cyllid yn ôl. Yn yr achos hwn, roedd lefel yr arbedion arfaethedig yn fach (£30,000) o’i chymharu â tharged arbedion gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, ond roedd yn cyfri am un rhan o bump o darged arbedion y gyfarwyddiaeth. Nodwyd y cyhoeddusrwydd niweidiol o dynnu cyllid yn ôl fel risg amlwg, er i’r cynllun gael ei asesu fel un risg isel o ran y gallu i’w gyflawni. Yn y pen draw, ni lwyddodd y gyfarwyddiaeth i dynnu’r cyllid yn ôl a disgwylir y bydd tanwariant yn y gyllideb yn gwneud iawn am y diffyg mewn arbedion.

## Mae’r trefniadau rheoli ariannol yn foddhaol

43 Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith clir o swyddogaethau a chyfrifoldebau, ac mae gweithgareddau a phrosesau rheoli priodol ar waith. Mae’r gweithdrefnau rheoli cyllidebol wedi’u hasesu fel rhai risg isel ac ni chodwyd unrhyw faterion mawr gan yr Archwiliad Mewnol.

44 Daeth ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol i’r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau mewnol effeithiol ar waith i gefnogi adrodd ariannol. Fodd bynnag, roedd ein hadroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol yn cynnwys nifer o argymhellion i gefnogi gwelliannau o ran stiwardiaeth asedau, trefniadau secondio a pharatoi’r adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth.

## Mae’r trefniadau ar gyfer monitro a throsolwg yn gadarn, ond mae lle i wella ar gynnwys a fformat yr adroddiadau ariannol

45 Mae trefniadau wedi hen sefydlu ar gyfer craffu ar berfformiad ariannol, yn weithredol ac yn strategol. Mae’r tîm cyllid yn monitro cyllidebau yn agos ac yn olrhain arbedion ac (ail)fuddsoddiadau yn fisol mewn cyfarfodydd rhwng y tîm cyllid a’r isadran a’r gyfarwyddiaeth er mwyn sicrhau bod y cyllidebau yn dal i fod ar y llwybr cywir. Mae’r tîm rheoli gweithredol yn craffu ar y sefyllfa ariannol gyffredinol bob chwarter, ac mae adolygiadau’r tîm rheoli gweithredol o berfformiad canol a diwedd blwyddyn y cyfarwyddiaethau yn darparu craffu ychwanegol.

46 Mae’r Bwrdd yn cael gwybodaeth ariannol yn brydlon, ac mae hynny’n cyd-fynd â’r wybodaeth a adroddir i Lywodraeth Cymru bob mis. Fodd bynnag, mae fformat a

chynnwys yr adroddiadau ariannol yn ei gwneud hi'n anodd olrhain y perfformiad ariannol yn erbyn strategaeth y gyllideb a nodir yn yr IMTP. Mae'r adroddiadau ar ffurf naratif gan fwyaf, sy'n ei gwneud hi'n anodd gweld negeseuon allweddol ar unwaith. Ni cheir gwybodaeth ynghylch a yw arbedion ac (ail)fuddsoddiadau arfaethedig ar y trywydd cywir i gyflawni'r hyn a fwriadwyd, a chaiff y ddwy gydran hyn eu cynnwys yn y llinell gyllidebol. Gallai'r cysylltiadau rhwng yr adroddiadau ariannol a pherfformiad fod yn well o ran darparu sicrwydd nad yw'r perfformiad ariannol yn effeithio'n niweidiol ar wasanaethau a rhaglenni gwaith neu fel arall.

47 Yn 2015-16, nododd strategaeth gyllidebol yr Ymddiriedolaeth gyfanswm o £1.12 miliwn o gyllid i'w ail-fuddsoddi mewn rhaglenni gwella iechyd a oedd yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar, lles meddyliol, gordewdra ac atal ysmygu. Ychydig iawn o wybodaeth a adroddwyd i'r Bwrdd am gynnydd yr ailfuddsoddiad, felly aeth fy nhîm ati i archwilio sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn monitro ac yn adrodd ar gyflawni ar lefel weithredol. Dengys gwybodaeth a ddarparwyd gan y gyfarwyddiaeth y defnyddiwyd yr ailfuddsoddiad i recriwtio staff i ddatblygu ac arwain rhaglenni gwaith newydd. Fodd bynnag, ni chafodd y cynllun ail-fuddsoddi, a oedd yn cynnwys yr wybodaeth ariannol fanwl, ei gwblhau tan fis pedwar. Achosodd hyn oedi o ran recriwtio ac, o ganlyniad, roedd tanwariant yng nghyllideb y gyfarwyddiaeth ar ddiwedd mis Mawrth 2016.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyddo i gyflawni cydbwysedd ariannol yn gyson bob blwyddyn, a rhagwelir y bydd yn meintoli'r gyllideb yn ystod 2016-17

48 Mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes llwyddiannus o gyflawni cydbwysedd ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn llwyddo i gyflawni gwarged bychan bob blwyddyn, yn ogystal â bod mewn sefyllfa i frocera arian yn ôl i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd. Yn ystod 2015-16, daeth gwared yr Ymddiriedolaeth i gyfanswm o £17,000 ar ôl brocera swm arfaethedig o £300,000. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017. Cafodd y ddyletswydd ariannol flynyddol ei dirymu a bydd y ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb yn dod yn ddyletswydd tair blynedd, gyda'r asesiad cyntaf o'r ddyletswydd hon yn cael ei gynnal yn 2016-17.

49 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni arbedion cyson, ac yn ystod 2015-16, cyflawnwyd arbedion o £2.5 miliwn. Ar ddiwedd mis Hydref 2016, dengys y ffurflenni ariannol i Lywodraeth Cymru bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni 50 y cant o'r £1.8 miliwn o arbedion a nodwyd yn strategaeth y gyllideb ac yn unol â'i chynllun.

## Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu corfforaethol da yn gadarn ar y cyfan ac yn parhau i aeddfedu

50 Mae fy ngwaith ar lywodraethu a sicrwydd wedi asesu trefniadau cynllunio ac adrodd strategol yr Ymddiriedolaeth a'r dull ar gyfer datblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd bwrdd. Rwyf hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd y Bwrdd yn gyffredinol a'i

strwythurau llywodraethu a’r cynnydd a wnaed i fynd i’r afael â’r argymhellion a’r materion gwella blaenorol ar asesu strwythuredig.

Mae’r trefniadau ar gyfer cynllunio strategol a gweithredol yn gweithio’n dda, ac er bod y trefniadau i fonitro perfformiad yn foddhaol, mae angen datblygu ymhellach y modd y mae’r bwrdd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Tymor Canolig Integredig

51 Datblygwyd IMTP yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016 o fewn yr amserlen ofynnol a chafodd ei graffu a’i gymeradwyo gan y bwrdd cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cafodd yr IMTP gymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet am yr ail flwyddyn yn olynol, yn unol â mân amodau, y mae’r Ymddiriedolaeth wedi mynd i’r afael â nhw.

52 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud defnydd da o fframwaith cynllunio’r GIG ac mae aelodau’r bwrdd yn hyderus bod y sefydliad wedi gwella ei ddull cynllunio o ganlyniad i hwn. Rhoddodd adolygiad gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol sicrwydd sylweddol bod proses yr Ymddiriedolaeth o ddatblygu’r IMTP yn gweithio’n dda.

53 Mae trefniadau cynllunio’r Ymddiriedolaeth yn parhau i gefnogi ffordd integredig o’r gwaelod i fyny o ymdrin â datblygu’r IMTP, gyda chefnogaeth y tîm cynllunio corfforaethol a’r gweithlu a phartneriaid busnes ariannol. Mae’r canllawiau cynllunio a ailwampiwyd yn ystod 2016 yn nodi’n glir swyddogaethau a chyfrifoldebau cynllunio a chyflawni’r IMTP, o’r llawr i’r bwrdd. Mae arweinydd gweithredol yn gyfrifol am arwain a datblygu cynllun ar gyfer pob blaenoriaeth strategol, gan sicrhau cyfraniadau perthnasol o bob rhan o’r sefydliad.

54 Nid yw’r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad ac adrodd ar y prif wasanaethau, a’r dangosyddion ansawdd ac adnoddau a nodwyd yn yr IMTP a’r cynllun gweithredu blynyddol[3] wedi newid rhyw lawer ers y llynedd. Mae’r IMTP yn cynnwys fframwaith cyflawni manwl sy’n nodi’r prif wasanaethau a’r dangosyddion ansawdd ac adnoddau. Mae adroddiadau ar berfformiad yn cynnwys dangosfwrdd, ond nid yw’r holl ddangosyddion wedi’u rhestru na’r rheswm dros eu gadael allan. Mae IMTP yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen gwneud gwaith ar ddatblygu’r trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd ymhellach, gan gynnwys gloywi adroddiadau misol i’r bwrdd.

55 Y llynedd, adroddwyd bod angen i’r Ymddiriedolaeth ystyried sut y dylai grynhoi’r cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni cerrig milltir yr IMTP a’r camau yn y Cynllun Gweithredu blynyddol. Mae IMTP 2016 yn nodi’r prif gyflawniadau yn erbyn blaenoriaethau strategol y flwyddyn flaenorol, ond mae’n anodd cysylltu’r cyflawniadau hyn â cherrig milltir a chamau penodol.

[3] Mae’r Cynllun Gweithredu yn nodi’r camu gweithredu penodol i gyflawni pob blaenoriaeth ac amcan strategol o’r IMTP yn ystod 2016-17.

56 Mae adroddiad y bwrdd ym mis Ebrill 2016 yn nodi nifer y camau yn y Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â'r nifer a ddygwyd ymlaen. Fodd bynnag, nid yw adroddiad y bwrdd yn nodi pa gamau gweithredu a ddygwyd ymlaen. Yn hytrach, cofnodir y camau hyn mewn adroddiadau perfformiad diwedd blwyddyn y cyfarwyddiaethau, a'r cyfarwyddiaethau sy'n gyfrifol am gyflawni a monitro'r rhain.

57 Yn y cyfamser, mae fframwaith cyflawni IMTP 2016 yr Ymddiriedolaeth yn nodi yr adroddir i'r bwrdd bob chwarter am y cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu gan ddefnyddio sgôr goleuadau traffig (coch, melyn, gwyrdd), ynghyd ag adroddiadau eithrio. Ond nid adroddwyd am y cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu i gyfarfod bwrdd cyhoeddus, er yr adroddwyd ar newidiadau arfaethedig i'r camau gweithredu, ynghyd â'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig ac a gawsant eu cymeradwyo neu beidio. Mae Canllawiau Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017/20[4] yn nodi'r disgwyliad y dylai byrddau gael asesiad cyffredinol o'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr IMTP mewn sesiwn gyhoeddus o leiaf dwywaith y flwyddyn.

## Mae'r Bwrdd wedi mynegi ei ofynion sicrwydd ac mae newidiadau i'r strwythurau llywodraethu yn gwella'r gwaith o graffu ar risgiau strategol

58 Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfûm:

- fod fframwaith sicrwydd y bwrdd ar waith erbyn hyn, ond mae'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith rheoli risg yn parhau i fod ar droed; ac
- mae newidiadau i strwythurau'r pwyllgor yn gwella'r gwaith o graffu ar risgiau strategol ac mae cynlluniau ar waith i wella effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgor ymhellach.

59 Cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith sicrwydd y bwrdd ym mis Mehefin 2016. Mae trefniadau effeithiol ar waith i ddiweddaru fframwaith sicrwydd y bwrdd er mwyn cefnogi gwaith craffu effeithiol ac amserol ar y risgiau strategol a lleihau'r camau gweithredu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Nid yw'r Bwrdd wedi mynegi swm neu fath y risg y mae'n barod i'w gymryd hyd yn hyn, ond mae cynlluniau ar droed i ddechrau trafodaethau yn rhan o sesiynau datblygu'r bwrdd.

60 Ar y cyfan, mae aelodau'r Bwrdd yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer sicrwydd bwrdd, ac mae aelodau'r bwrdd yn mynd ati i ddod o hyd i sicrwydd bod y rheoliadau yn gadarn a'r ffynonellau sicrwydd yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae risgiau strategol a gofnodwyd yn fframwaith sicrwydd y bwrdd yn gysylltiedig â blaenoriaethau strategol yn ôl cyfeirnod yn unig, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r darllenydd feirniadu ansawdd y rheoliadau a'r mesurau sicrwydd.

61 Mae'r gwaith o ymwreiddio'r fframwaith rheoli risg ar lefel weithredol yn parhau i ddigwydd. Gohiriwyd hyfforddiant i gefnogi'r gwaith o'i weithredu tan ddechrau 2017 er mwyn i'r prif swyddog risg newydd allu adolygu'r rhaglen hyfforddi ar ôl cael adborth gan y staff. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ffyddiog y bydd cofrestrau risg

[4] Llywodraeth Cymru, **Canllawiau Cynllunio'r GIG ar gyfer 2017/20**, 2016.

cadarn gan y gyfarwyddiaeth erbyn mis Mawrth 2017, gyda'r trefniadau ar gyfer diweddaru risgiau yn adlewyrchu'r rheini ar gyfer fframwaith sicrwydd y bwrdd. Bryd hynny, bwriad yr Ymddiriedolaeth yw ailasesu aeddfedrwydd sefydliadol o ran rheoli risg a bob blwyddyn wedi hynny.

62 Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygu ei effeithiolrwydd. Serch hynny, diddorol yw nodi bod aelodau'r bwrdd yn llai ffyddiog bod dull effeithiol yn cael ei ddefnyddio i asesu effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgor, neu fod y niferoedd digonol yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i graffu. Yn ddiweddar, ar ôl newidiadau i'r Offerynnau Statudol, llenwyd yr hen swydd wag ar gyfer cyfarwyddwr anweithredol sydd â phrofiad o lywodraeth leol. Mae gofynion olynu yn rhai parhaus, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda'r Uned Penodiadau Cyhoeddus i leihau'r risgiau i ddilyniant y bwrdd.

63 Adolygwyd cynlluniau gwaith y bwrdd a'r pwyllgor ac mae rhaglen o hunanasesiadau pwyllgor ar waith, gan ddechrau gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Yn y cyfamser, bwriedir cynnal rhaglen fwy ffurfiol o sesiynau datblygu bwrdd er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o'r bwrdd ddigon o wybodaeth am y themâu a'r heriau sy'n dod i'r amlwg. Bydd hyn yn dod yn bwysicach byth wrth i aelodau anweithredol newydd ymuno â'r sefydliad.

64 Mae aelodau'r bwrdd yn bendant bod y sefydliad yn adolygu ac yn addasu strwythurau llywodraethu'r sefydliad yn effeithiol. Cymeradwywyd y trefniadau ar gyfer diddymu a sefydlu pwyllgorau bwrdd gan y Bwrdd. Mae newidiadau i strwythurau'r pwyllgor yn gwella'r gwaith o graffu ar risgiau strategol sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau strategol yr IMTP a'r risgiau i'w cyflawni.

### Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da wrth gryfhau'r trefniadau llywodraethu ar gyfer ansawdd ac mae'r trefniadau i olrhain cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion yn foddhaol

65 Mae sicrhau ansawdd a gwella ansawdd yn parhau i fod yn rhan annatod o IMTP yr Ymddiriedolaeth. Dechreuodd yr arweinydd ansawdd yn ei swydd ddechrau 2016, gan ddarparu'r gallu oedd ei angen i gwblhau'r fframwaith ansawdd ac effaith, a gymeradwywyd yn ddiweddar gan y Bwrdd. Bydd y Grŵp Rheoli Ansawdd, sy'n atebol i'r tîm rheoli gweithredol, yn goruchwylio'r gweithredu. Mae'r canllawiau ar yr arferion da y mae'r fframwaith yn seiliedig arnynt yn cael eu datblygu i'r staff ar hyn o bryd. Hefyd, mae cynlluniau i sefydlu fforwm rhithwir lle daw'r staff ynghyd i ddysgu a rhannu dulliau gwella a gwerthuso ansawdd yn mynd rhagddynt yn dda.

66 Cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth ei chynllun archwilio clinigol blynyddol cyntaf y llynedd[5] ac mae'r cynnydd a wnaethpwyd yn cael ei asesu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae datblygiad cynllun 2017-18 ymhell ar y blaen. Bwriedir cyflwyno'r

[5] Bydd y cynllun yn cael ei adnabod fel y Cynllun Ansawdd ac Archwilio Clinigol yn y dyfodol.

adroddiad ar gynnydd a'r cynllun newydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch ac Effaith cyn diwedd mis Mawrth 2017.

67 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd, ond cred rhai o aelodau'r bwrdd fod y sefydliad yn ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau ar y newidiadau strategol mawr a amlinellir yn yr IMTP. Ar ddechrau 2016, comisiynodd yr Ymddiriedolaeth asesiad sylfaenol o'i threfniadau ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd. Daeth yr adroddiad drafft i law yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddar, ond nid yw eto wedi cytuno ar sut y bydd yn ymateb i'r canfyddiadau.

68 Mae gwaith ar droed i nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â straeon i gyfarfodydd bwrdd er mwyn sicrhau bod straeon yn adlewyrchu'r amrywiaeth o waith y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud gyda defnyddwyr gwasanaethau, cymunedau lleol a phoblogaethau cyfan. Fodd bynnag, mae straeon yn ffurfio rhan o gynllun busnes y bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac maen nhw'n parhau i fod yn nodwedd reolaidd o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch ac Effaith.

69 Mae prosesau ar gyfer dysgu o gwynion a digwyddiadau yn parhau i wella. Cwblhawyd archwiliad ôl-weithredol arfaethedig yr Ymddiriedolaeth o wersi a ddysgwyd o bryderon a honiadau yn gynharach y flwyddyn hon. Canfu fod gwersi yn cael eu dysgu. Mae adolygiad blynyddol Cronfa Risg Cymru o reolaeth pryderon a honiadau, a'r dysgu sy'n deillio o hyn, yn dangos gwelliant parhaus. Nododd Cronfa Risg Cymru nad oedd dysgu yn rhan ganolog o'r sefydliad eto, ond roedd ansawdd y gwaith a'r dystiolaeth o ran dysgu yn ymddangos yn fwy cadarn.

70 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'm hargymhellion ar asesiad strwythuredig 2015, ystyriais hefyd pa mor effeithiol oedd trefniadau'r Ymddiriedolaeth o ran rheoli ac ymateb i'm hargymhellion archwilio. Mae cofnod yn olrhain statws yr argymhellion (h.y. y nifer a gyflawnwyd, y rhai sydd ar y gweill neu'n hwyr), y camau sydd angen eu cymryd ac unrhyw ddiweddariadau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ystyried y cofnod hwn ym mhob cyfarfod, ac yn ei ddefnyddio i herio cadernid ymatebion y rheolwyr a chyflymder y cynnydd.

71 Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth eto wedi mynd i'r afael â'm hargymhelliad i asesu a yw ei pholisi diogelu gwybodaeth yn addas i'r diben ac, os nad yw, ei diweddaru a'i diwygio neu ddatblygu polisi diogelu gwybodaeth newydd. Gan ystyried y digwyddiadau seiberddiogelwch diweddar mewn sefydliadau GIG yn Lloegr, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth yn gyfredol ac yn effeithiol.

## Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad gyfleoedd i sicrhau defnydd gwell o adnoddau ar gyfer contract y meddygon ymgynghorol yng Nghymru

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i fynd i'r afael â'm hargymhellion, ond mae'r gwaith o gynllunio swyddi yn parhau i fod yn aneffeithiol ac ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan yr Ymddiriedolaeth o hyd o ymrwymiadau meddygon ymgynghorol

72 Asesodd fy ngwaith archwilio dilynol i ba raddau yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi mynd i'r afael â'm hargymhellion i gryfhau'r prosesau cynllunio swyddi ac i wireddu buddion y contract meddygon ymgynghorol yng Nghymru. Mae rheolaeth gorfforaethol y gwaith o gynllunio swyddi yn wan ar y cyfan, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhai camau cadarnhaol i gryfhau'r prosesau a'r ddealltwriaeth, yn benodol:

- nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cofnodi cynlluniau swyddi yn ganolog ac roedd ansawdd y cynlluniau swyddi a adolygwyd yn amrywiol;
- mae'r canllawiau a'r hyfforddiant lleol yn gynhwysfawr, ond mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r gwaith o gynllunio swyddi wedi gwella o ganlyniad i hyn;
- yn wahanol i'r hyn a nodir mewn canllawiau cenedlaethol, nid yw rheolwyr cyffredinol yn cymryd rhan yn y rhan fwyaf o adolygiadau cynlluniau swyddi, a phur anaml y caiff gwaith meddygon ymgynghorol sy'n gweithio i gyrff eraill ei adlewyrchu yn eu cynlluniau swyddi;
- mae'r gwaith o osod canlyniadau yn wan ac mae'r mynediad at wybodaeth i gefnogi'r gwaith o gynllunio swyddi yn anghyson;
- mae'r prosesau cynllunio ac arfarnu swyddi yn gysylltiedig mewn theori, ond nid yn ymarferol; mae alinio'r prosesau yn flaenoriaeth gorfforaethol, ond ni wyddys yn union sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni; ac
- mae'r gwaith corfforaethol o fonitro a oes gan bob meddyg ymgynghorol gynllun swydd diweddar yn wan ar hyn o bryd; cyflwynwyd trefniadau monitro newydd ond mae angen eu cryfhau trwy, er enghraifft, adrodd am gyfraddau cwblhau.

73 Yn y cyfamser, dim ond rhai o fuddion arfaethedig y contract a wireddwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yn benodol:

- mae cynlluniau swyddi yn cynorthwyo trafodaethau gwell rhwng rheolwyr a meddygon ymgynghorol, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio i hwyluso'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau;
- er bod cynlluniau swyddi yn diffinio Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yn glir, ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o ganlyniadau ac allbynnau'r gweithgareddau hyn;

- nid oes unrhyw sicrwydd yr aed i'r afael ag oriau gormodol gan nad yw'r Ymddiriedolaeth yn cadw data ar sesiynau meddygon ymgynghorol; a
- ni chaiff cynlluniau swyddi eu defnyddio ar hyn o bryd i helpu i reoli pwysau llwyth gwaith tymor byr o fewn timau.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Arddangosyn 3: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2016 |
| Memorandwm ar y Cyfrifon Terfynol | Medi 2016 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad Dilynol o Gontract Meddygon Ymgynghorol | Medi 2016 |
| Asesiad Strwythuredig 2016 | Rhagfyr 2016 |
| Adolygiad o Arbedion ac (Ail)Fuddsoddiadau – wedi'i gynnwys yn y trefniadau rheoli ariannol a adroddwyd yn yr Asesiad Strwythuredig | Rhagfyr 2016 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2016 | Mawrth 2016 |

Arddangosyn 4: gwaith archwilio perfformiad sy'n parhau i fod ar waith

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau bras |
|---|---|
| Adolygiad o'r Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol | Mawrth 2017 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2016 y ffi archwilio arfaethedig o £151,113 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith eto i'w wneud, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Arddangosyn 5: risgiau archwilio arwyddocaol

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg y gallai'r rheolwyr wrthwneud mesurau rheoli yn bresennol ym mhob man. Oherwydd y gallai hynny ddigwydd mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld, caiff ei hystyried yn risg arwyddocaol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod tuedd;<br>• gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i'r busnes arferol. | Ni nodwyd unrhyw faterion o'n hadolygiad a'n profion o gofnodion dyddlyfrau. |
| Dyletswydd ariannol yr Ymddiriedolaeth yw sicrhau ei bod yn mantoli'r gyllideb o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn darged statudol ac yn risg arwyddocaol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu sail yr amcangyfrifon cyfrifyddu a'r croniadau diwedd blwyddyn i sicrhau eu bod yn gyflawn a dibynadwy. | Ac eithrio'r amcangyfrif ar gyfer y gwaith a gwblhawyd ar Swyddfa newydd Car y Ddinas, a adroddir yn Arddangosyn 1, daethom i'r casgliad y nodwyd y datganiadau ariannol yn deg. |
| Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod contract a reolir am ddarparu gwasanaeth microbioleg, gwerth tua £1.2 miliwn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu dangos y contract fel trafodiad 'oddi ar y fantolen' yn ei chyfrifon ar sail y cyngor technegol y mae wedi'i gael. | Codwyd y mater hwn yn ystod 2014-15, ond roedd hyn yn golygu na chafwyd oedi o ran gosod y contract ac nad oedd unrhyw effaith ar gyfrifon 2014-15. Gan fod y contract bellach wedi'i osod, byddwn yn dod â'n hadolygiad i ben o ran:<br>• a gafwyd y gymeradwyaeth angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y contract;<br>• a yw'r driniaeth gyfrifyddu yn briodol; ac<br>• a geisiwyd y cyngor priodol ar y trefniadau TAW. | Ni chanfuwyd unrhyw faterion wrth gwblhau'r gwaith hwn. |

| Risg archwilio arwyddocaol | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n symud o nifer o'i heiddo o ganlyniad i'w hadolygiad o anghenion llety yn adolygiad strategol yr Ystadau, ac mae wedi sicrhau lle ar gyfer swyddfa newydd. Mae dau fater archwilio posibl yn deillio o hyn:<br>• yn gyntaf, mae'r Ymddiriedolaeth yn debygol o orfod talu ffioedd dadfeiliadau am bob eiddo ar brydles; a<br>• bydd angen pennu'r costau cyfalaf i baratoi'r llety newydd yn gadarn fel y gellir eu cyfalafu mewn modd y gall yr Ymddiriedolaeth gyflawni ei therfyn adnoddau cyfalaf. | Byddwn yn adolygu'r sail dros gynnwys ffioedd dadfeiliadau a chostau paratoi cyfalaf yn y cyfrifon, gan gynnwys sylfaen unrhyw amcangyfrifon a'u dibynadwyedd. | Ac eithrio'r amcangyfrif ar gyfer y gwaith a gwblhawyd ar Swyddfa newydd Cwr y Ddinas, a adroddir yn Arddangosyn 1, daethom i'r casgliad y nodwyd y datgeliadau sy'n ymwneud â'r trafodion hyn yn deg yn y datganiadau ariannol. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru